**Cyngor Cymuned Glantwymyn**

**Nos Iau, y 31ain o Hydref 2019**

**19:74:1: Presennol:** Cynghorwyr - Siôn Ifans (Cadeirydd), Gareth Owen, Paul Hughes, Aled Griffiths, Elwyn Vaughan, Geraint Wigley, Aeron Pughe, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, Dafydd Evans

**19:75: Ymddiheuriadau:** Gwyn Jones, Huw Williams, Gwenfair Davies, Gareth Jones, Iwan Jones,

**19:76: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Cyfarfod CC Glantwymyn Medi 2019** Cynigiodd Paul Hughes fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Siôn Ifans

**19:77: Datganiadau o ddiddordeb** – dim

**19:78: Materion yn codi o'r cofnodion**

**19:78:1:** Pumphouse Llanwrin – nodwyd y dylai fod manylion y pumphouse wedi cael eu nodi yng nghofnodion cyfarfod Medi sef bod angen cysylltu â Dŵr Cymru i drwsio'r gwrych o gwmpas y pumphouse er diogelu eiddo preswylwyr cyfagos.

**19:78:2**: Blychau ffôn (19:69:1) Mae trafodaethau dal ar y gweill ar gyfer prynu bocsys ffôn Cemaes a Chomins coch. BT neu berchennog fydd yn piau'r tir dan y bocsys. Darperir trydan gan BT os bydd angen. Nodwyd bod angen sicrhau mai cael eu defnyddio er budd y cyhoedd y byddai'r bocsys ffôn ar ôl prynu a bod angen eu diogelu rhag cael eu dymchwel gan neb ond CCG pe byddai angen gwneud hynny. Bydd gofyn i'r sawl sydd â diddordeb mewn defnyddio bocs ffôn a brynwyd gyflwyno cais gerbron CCG, arwyddo cytundeb â CCG ac ufuddhau i ganllawiau cytunedig.

**19:79: Gohebiaeth**

**19:79:1:** Cafwyd gwybod gan Dŵr Cymru y bydd gwrych wrth Pumphouse Llanwrin yn cael ei drwsio'r flwyddyn nesaf, pan fydd y gyllideb newydd yn caniatáu.

**19:79:2:** Cofeb Rhyfel Cemaes (19:51:2) -cafwyd gwybod bod yr arian ar y ffordd.

**19:79:3:** 'O'r Mynydd i'r Môr' – cynigiodd Siân Stacey ymweld i drafod y prosiect. Penderfynwyd estyn gwahoddiad iddi ar ddechrau cyfarfod CCG.

**19:79:4:** Dweud eich dweud am gyllideb y flwyddyn nesaf – holiadur Cyngor Sir Powys. Penderfynwyd annog yr holl gynghorwyr i lenwi'r holiadur yn unigol gan fod y dyddiad cau yn agosáu a bod rhai wedi gwneud eisoes.

**19:80:1**: **Cynllunio** 19/1666/FUL Man llwytho coed – Coedwidol. Cynigiwyd y dylid derbyn y cais gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Aeron Pughe

**19:81: Materion Ariannol**

**19:81:1:** Cyflwynwyd cyfrifon 2018-2019 a thystiwyd eu bod yn gywir. Nodwyd bod yr oedi o ran cyflwyno'r cyfrifon o ganlyniad i ddiffyg gweithredu amserol y cyfrifwyr a bod bai ar y cyfrifwyr am hynny a hefyd am beidio â gofyn am Bolisi yn gynt. Nodwyd bod y cyfrifwyr wedi derbyn cyfrifoldeb llwyr am yr oedi hynny a chafwyd addewid na fyddai'r cyfrifwyr na'r ymchwilwyr awdit allanol yn codi pres ar CCG am y diffyg gweithredu amserol o ran y cyfrifwyr a'r camddealltwriaeth a'r trafodaethau pellach dianghenraid a godwyd yn sgil hynny.

Gosodir hysbysiad a chopïau o'r cyfrifon hynny yng Nghanolfan Gymunedol Glantwymyn am 14 diwrnod yn unol â'r gofyn.

**19:81:2:** Talwyd siec am £140.00 i Bwyllgor Neuadd Glantwymyn am logi'r ystafell i gyfarfodydd CCG. Cynigiodd Dafydd Evans ac fe'i heliwyd gan Aeron Pughe.

**19:81:3:** Talwyd £1,295 i Paul Hughes am dorri gwair mynwentydd Llanwrin a Darowen pedair gwaith yr un.

Cynigiwyd gan Geraint Wigley ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:81:4:** Talwyd £25.00 i'r Lleng Prydeinig am dorch.

**19:81:5:** Llofnodwyr a Bancio ar-lein. Trafodwyd y system gyfredol ar gyfer bancio. Penderfynwyd ychwanegu Siôn Ifans (Cadeirydd) a Gareth Jones (Is-gadeirydd) fel llofnodwyr ychwanegol at y llofnodwyr presennol sef Dafydd Evans, Paul Hughes, Bill Owen a Gwyn Jones. Parheir gyda'r broses i sefydlu bancio ar-lein er hwylustod.

**19:71: Adroddiadau'r Cynghorwyr:**

**19:71:1: Adroddiad Llywodraethwyr Ysgol gan Aled Griffiths**

Estynnwyd gwahoddiad ar ran yr ysgolion i'r Cynghorydd Elwyn Vaughan i fynychu'r cyfarfodydd.

Y gobaith yw gallu cyflogi athrawes ychwanegol a chynyddu oriau cynorthwywyr y flwyddyn nesaf.

Cynhelir cyngerdd i godi arian i'r Ffederasiwn ddechrau Rhagfyr yn y Tabernacl Machynlleth gydag Elin Fflur, Aled Pentre' Mawr a'r plant ysgol.

Nodwyd bod y gwaith ar Ysgol Glantwymyn bron â'i gwblhau heblaw am farcio'r tarmac ar gyfer gemau plant a datrys problem bwlch dan y giatiau ar ôl eu cau.

**19:71:2: Adroddiad Canolfan Gymuned Glantwymyn gan Paul Hughes**

Cynhelir cyngerdd ar yr 8fed o Dachwedd gan dri Gog a Hwntw i godi arian i'r Ganolfan i godi arian at y gwelliannau sy wedi bod. Cynhelir digwyddiad ar gyfer Sul y Cofio 10.11.19.

**19:72: Unrhyw Fater Arall**

**19:72:1:** Cyflwynwyd a derbyniwyd y fersiwn diweddaraf o'r Cod Ymddygiad. Llofnododd pob cynghorwr oedd yn bresennol ei fod yn derbyn y Cod ac yn fodlon ufuddhau iddo. Tynnwyd sylw at gyfrifoldeb llywodraethwyr i barchu'i gilydd a phobl eraill bob amser. Arwyddwyd y ddogfen gan y sawl oedd yn bresennol gan nodi y bydd angen i'r holl gynghorwyr nad oedd yn bresennol arwyddo hefyd.

**19:72:2:** Polisi Rheoli Risg -Bydd Aled Griffiths yn cynghori'r clerc ar gyfer llunio Polisi Risg 2019-2020. Cynigwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:72:3:** Cronfa Gymunedol Dyfodol Gweledig – Cyflwynwyd y ddogfen ond ni chafwyd unrhyw awgrymiadau pellach. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cefnogi gweithgarwch Biosffer Dyfi er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir a'r arian cyhoeddus er budd pobl leol, gan warchod yr iaith a hyrwyddo diwylliant.

**19:72:4:** Meddygfa Machynlleth Mynegwyd nifer o bryderon gan bobl leol gan gynnwys:

- diffyg parcio digonol,
- cais unigolyn i weld meddyg yn cael ei wrthod
- cleifion wedi cael eu gwrthod yn y feddygfa, gyrru adref ac wedyn gorfod mynd eto i'r feddygfa
- problemau wrth ffonio i gael apwyntiadau a'r amser aros a'r system aros.

Penderfynwyd llunio llythyr i'r Bwrdd Iechyd i fynegi siom CCG yn wyneb diffyg gwireddu'r addewidion a waned gan yr Awdurdod Iechyd. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cynghorydd Elwyn Vaughan parthed hyn.

**19:72:5:** Materion priffyrdd:

- Draen tu allan i Dŷ Glancoegen, ar ochr yr A470 yng Nghemaes yn llawn dail a llwch gyda dŵr sylweddol yn sefyll ar ochr y ffordd, ac yn beryglus i draffig n enwedig os bydd y dŵr yn rhewi.
- Carreg fawr ar ochr Cwmlline o bont Cemaes yn gwbl rydd ac yn beryglus i draffig ac i gerddwyr ar lwybr cyhoeddus y bont.
- Cau ffordd ger Cwm Ffrydlan, Llanwrin 11.11.19. Bydd y clerc yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'r rheswm dros wneud hyn ac yn rhoi gwybod i'r cynghorwyr.

**19:72:6:** Cynllun Cynnal a Chadw Cofeb Cemaes Bydd y clerc yn cwblhau manylion cynnal a chadw i Cymdeithas Cofebion Powys yn seiliedig ar gynllun cyfredol CCG fel ofyniad i'r cymorth ariannol ar gyfer adfer y gofeb.

Caewyd y cyfarfod am 8.45yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf, nos Iau, yr 28ain o Dachwedd am 7.30yh**